

Graham Nash

Pecynnau Pwysigion yng Nghanolfan Mileniwm Cymru

Rhes Flaen Graham Nash – Pecyn Cwrdd a Chyfarch i Bwysigion

£200

Dim ond 6 tocyn sydd ar gael!

- Un sedd gadw yn y Rhes Flaen
- Sesiwn Cwrdd a Chyfarch gyda Graham Nash yn ystod yr egwyl
- Ymweld â sesiwn Gwirio Sain cyn-sioe gyda Graham Nash
- Un poster o'r daith wedi'i lofnodi
- Un dalen swfenîr wedi'i lamineiddio o sioe Graham Nash
- Un tocyn swfenîr o sioe Graham Nash
- Cyfle i siopa nwyddau'r sioe, heb y dorf
- Staff i bwysigion ar y safle

Pecyn Gwirio Sain Graham Nash

£150

Dim ond 20 tocyn sydd ar gael!

- Un sedd gadw o fewn y 5 rhes gyntaf
- Ymweld â sesiwn Gwirio Sain cyn-sioe gyda Graham Nash
- Un poster o'r daith wedi'i lofnodi
- Un dalen swfenîr wedi'i lamineiddio o sioe Graham Nash
- Un tocyn swfenîr o sioe Graham Nash
- Cyfle i siopa nwyddau'r sioe, heb y dorf
- Staff i bwysigion ar y safle

Pecyn Premiwm Graham Nash

£100

Dim ond 20 tocyn sydd ar gael!

- Un sedd gadw o fewn y 10 rhes gyntaf
- Un eitem o daith Graham Nash
- Un tocyn swfenîr o sioe Graham Nash
- Staff i bwysigion ar y safle

Telerau ac Amodau y Pecyn Pwysigion

Diolch yn fawr i chi am brynu Pecyn Tocyn Graham Nash. Bydd angen i chi lofnodi ildiad hawl a rhyddhad atebolrwydd. Gall manylion y pecyn newid yn ddi-rybudd. Mae pob un o'r Pecynnau Pwysigion yn ANHROSGLWYDDADWY; NI CHANIATEIR NEWID ENWAU dan unrhyw amgylchiadau; NI RODDIR AD-DALIADAU ac NI ELLIR CYFNEWID TOCYNNAU; mae pob gwerthiant yn derfynol. Mae'r pecyn hwn ar gyfer sioe Graham Nash yn unig.

Wrth brynu Pecyn Pwysigion ar gyfer sioe Graham Nash, rhaid i chi roi cyfeiriad ebost dilys i Ganolfan Mileniwm Cymru. Oni fyddwch yn rhoi caniatâd i hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer pwrpasau marchnata yn ystod y broses archebu, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon yn unig er mwyn cysylltu â chi ynghylch eich Pecyn Pwysigion.

Byddwch yn derbyn ebost oddi wrth Ganolfan Mileniwm Cymru (tickets@wmc.org.uk) 2–3 diwrnod cyn dyddiad y perfformiad, gyda rhagor o wybodaeth am y diwrnod a manylion ynghylch sut i gasglu'ch tocynnau. (Cofiwch edrych ar negeseuon spam/sothach rhag ofn fod y neges wedi mynd i'r fan honno.) Ar gyfer rhai pecynnau, yn cynnwys y pecyn gwirio sain, mae'n bosibl y bydd angen i chi gyrraedd rai oriau cyn i'r sioe ddechrau. Bydd nwyddau ecsgliwsif y Pecyn Pwysigion yn cael eu dosbarthu yn y lleoliad, a hynny ar ddiwrnod y sioe YN UNIG. Er mwyn derbyn y nwyddau sydd ynghlwm â'ch pecyn, bydd raid i chi fynd i'r lleoliad dynodedig ar yr amser a nodir. Sylwch, os gwelwch yn dda, bod raid i'r tocynnau a gynhwysir mewn pecynnau gael eu casglu yn y man casglu priodol ar ddiwrnod y sioe YN UNIG. Er mwyn derbyn pob elfen o'ch archeb, rhaid i chi gyflwyno eich derbynneb a cherdyn adnabod â llun yn y man casglu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y Pecynnau Pwysigion, cysylltwch ag On the List Presents trwy ebostio vip@otlpresents.com

Os nad ydych wedi derbyn eich cyfarwyddiadau o fewn yr amser a nodir, dylech gysylltu â Chanolfan Mileniwm Cymru ar 029 2063 6464 neu ebostio tickets@wmc.org.uk

Os oes gennych anghenion ymghylch mynediad, gofynnir i chi gysylltu'n uniongyrchol â swyddfa docynnau Canolfan Mileniwm Cymru ar 029 2063 6464 neu ebostio tickets@wmc.org.uk cyn gosod eich archeb, a byddwn yn gwneud ein gorau i gwrdd â'ch anghenion.

Os hoffech siarad â rhywun yn Gymraeg, mae croeso i chi gysylltu'n uniongyrchol â Chanolfan Mileniwm Cymru ar 029 2063 6464 neu ebostio tickets@wmc.org.uk

Gwasanaeth i Gwsmeriaid 'On The List Presents'

Ffôn: 800-782-0546

Ebost: VIP@OTLPresents.com

Twitter: [@OTLPresents](https://twitter.com/OTLPresents)

Facebook: <https://www.facebook.com/OnTheListPresents/>

Gwasanaeth i Gwsmeriaid Canolfan Mileniwm Cymru

Ffôn: 029 2063 6464

Ebost: tickets@wmc.org.uk